Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Datganiad yr Hydref, 2011

**Tachwedd 2011**

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn rhoi gwybodaeth am Ddatganiad yr Hydref, sef datganiad y Canghellor ar 29 Tachwedd 2011. Mae'n crynhoi'r prif gyhoeddiadau am yr economi a'u heffaith bosibl ar Gymru.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd Canghellor y Trysorlys, George Osborne, Ddatganiad yr Hydref ddydd Mawrth 29 Tachwedd 2011.[1] Mae Datganiad yr Hydref yn cymryd lle'r Adroddiad Rhag-gyllidebol[2], ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer yr economi yn seiliedig ar ragolygon diweddaraf y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Datganiad yr Hydref.[3]

Yn ogystal â Datganiad yr Hydref, cyhoeddwyd manylion am y cynllun twf[4] a chynllun seilwaith cenedlaethol 2011.[5]

## Y prif gyhoeddiadau polisi

**Diogelu'r economi:**

- **Oedran pensiwn y wladwriaeth** – bydd yn codi i 67 rhwng mis Ebrill 2026 a mis Ebrill 2028 i ymateb i newidiadau demograffig, gan arbed tua £60 biliwn rhwng 2026-7 a 2035-36;
- **Cyflogau yn y sector cyhoeddus** – byddant yn cynyddu un y cant ar gyfartaledd bob blwyddyn dros y ddwy flynedd ar ôl i'r cyfnod o rewi cyflogau ddod i ben flwyddyn nesaf. Rhagwelir y bydd hynny'n arbed tua £1.75 biliwn dros y tair blynedd tan 2014-15;
- **Credydau Treth** – bydd elfen blant y credyd treth plant ac elfennau anabledd credydau treth yn cael eu huwchraddio fel eu bod yn cyd-fynd â'r mynegai prisiau defnyddwyr. Ni fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynllun i gynyddu'r elfen blant £110 uwchlaw chwyddiant, ac ni fydd ychwaith yn uwchraddio elfennau'r credyd treth

[1] Trysorlys EM, ***Datganiad yr Hydref, 2011***, 29 Tachwedd 2011 [fel ar 29 Tachwedd 2011] (Saesneg yn unig)
[2] Dilëodd **Adran 2** o *Ddeddf Cyfrifoldeb dros y Gyllideb ac Archwilio Cenedlaethol 2011* y ddyletswydd ar Drysorlys EM i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Rhag-gyllidebol. [fel ar 29 Tachwedd 2011] (Saesneg yn unig)
[3] Y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, ***Economic and Fiscal Outlook***, 29 Tachwedd 2011. Ceir crynodeb o'r prif ragolygon, ynghyd â chymariaethau â rhagolygon annibynnol, yng nghyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil ***Rhagolygon economaidd a chyllidol***, Tachwedd 2011 [fel ar 29 Tachwedd 2011] (Saesneg yn unig)
[4] Trysorlys EM, a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, ***Plan for Growth***, Mawrth 2011 a Thrysorlys EM, ***Growth Review Phase 1 Implementation***, 29 Tachwedd 2011 [fel ar 29 Tachwedd 2011]
[5] Trysorlys EM, ***Cynllun Seilwaith 2011***, 29 Tachwedd 2011 [fel ar 29 Tachwedd 2011]

mewn perthynas â chyplau a rhieni unigol. Rhagwelir y bydd hynny'n arbed tua £3.8 biliwn dros y tair blynedd tan 2014-15;

**Adeiladu economi gryfach at y dyfodol:**

- **Seilwaith** – mae cynllun seilwaith cenedlaethol 2011 yn cynnwys ymrwymiadau i wella rhwydweithiau trafnidiaeth a band-eang y DU, ynghyd â chamau i ddenu buddsoddiadau mawr newydd o'r sector preifat. Yng nghyswllt hynny, bydd yr arbedion a wneir o ganlyniad i'r gwariant presennol yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant ychwanegol o £6.3 biliwn ar seilwaith. Mae £4.7 biliwn o hynny yn gyllid newydd a fydd ar gael rhwng 2012-13 a 2014-15. Ar ben hynny, bydd £20 biliwn o fuddsoddiadau ychwanegol yn cael ei dargedu o gronfeydd pensiwn.
- **Y Gronfa Twf Rhanbarthol** – dyrannwyd £1 biliwn yn ychwanegol i'r gronfa, a bydd yn cael ei hymestyn tan 2014-15 er mwyn cefnogi twf yn y sector preifat.
- **Lleddfu credyd** – bydd cynllun cenedlaethol dwy flynedd gwerth £20 biliwn yn cael ei gyflwyno i warantu benthyciadau, a fydd yn caniatáu i fanciau gynnig benthyciadau rhatach i fusnesau llai. Bydd partneriaeth cyllid busnes gwerth £1 biliwn hefyd yn cael ei chyflwyno i fuddsoddi mewn busnesau bach a chanolig yn y DU drwy sianeli ar wahân i'r banciau.
- **Addysg –** bydd £1.2 biliwn o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer addysg: bydd buddsoddiad ychwanegol o £600 miliwn yn ariannu 100 o ysgolion rhydd erbyn diwedd tymor y Senedd hon yn y DU, a bydd £600 miliwn ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo awdurdodau lleol sydd o dan y pwysau demograffig mwyaf i gyflenwi 40,000 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion.
- **Tai –** bydd cynllun indemniad ar gyfer tai newydd yn cael ei gyflwyno i gynyddu'r cyflenwad o forgeisi fforddiadwy ar gyfer tai newydd, a bydd y cynllun hawl i brynu'n cael ei adfywio.
- Diwydiannau **ynni**-ddwys **–** bydd £250 miliwn yn cael ei ddefnyddio i leihau effaith polisïau ar gostau trydan y diwydiannau sydd fwyaf ynni-ddwys.
- **Gwyddoniaeth** – bydd £200 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn gwyddoniaeth, gan gynnwys buddsoddiad o £80 miliwn yn y Sefydliad Iechyd Anifeiliaid, a bydd £25 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn arddangoswyr technoleg ar raddfa fawr.

**Tegwch:**

- **Pensiwn y wladwriaeth** – bydd pensiwn sylfaenol llawn y wladwriaeth yn codi £5.30 i £107.45 yr wythnos ym mis Ebrill 2012.
- **Treth ar danwydd** – bydd y cynnydd o 3c yn y dreth ar danwydd y bwriedid ei gyflwyno ym mis Ionawr yn cael ei ohirio, a bydd y cynnydd mewn perthynas â chwyddiant y bwriedid ei gyflwyno ym mis Awst 2012 yn cael ei ganslo (gostyngwyd ef o 5c i 3c).
- **Prisiau tocynnau trên** – bydd y cynnydd mewn prisiau tocynnau trên a reoleiddir yn cael ei gyfyngu i lefel y mynegai prisiau defnyddwyr, ynghyd ag 1 y cant ar ben hynny

(6.2 y cant) o 2012. Amcangyfrifir mai cost hynny fydd £345 miliwn dros dair blynedd tan 2014-15.

- **Ardoll y banciau** – bydd ardoll y banciau yn cynyddu i 0.088 y cant o fis Ionawr 2012.
- **Contract pobl ifanc** – bydd contract pobl ifanc gwerth £940 miliwn yn cael ei gyflwyno rhwng blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2014-15 i gynorthwyo pobl ifanc i ddod o hyd i waith neu brentisiaethau, neu i fynd i addysg.
- **Gofal plant** – bydd £380 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn erbyn 2014-15 fel bod 130,000 yn ychwanegol o blant dwyflwydd oed difreintiedig yn cael addysg a gofal am ddim am 15 awr yr wythnos.

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion am y **gwariant ychwanegol** a nodir yn natganiad y Canghellor.

**Tabl 1: Gwariant ychwanegol**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant refeniw:** | | | |
| Contract pobl ifanc | 365 | 310 | 265 |
| Gofal plant blynyddoedd cynnar | 85 | 240 | 455 |
| Tocynnau rheilffordd | 105 | 105 | 135 |
| Pris gwaelodol i garbon: diwydiannau ynni-ddwys | 0 | 40 | 60 |
| Gwyddoniaeth | 30 | 30 | 30 |
| **Gwariant cyfalaf:** | | | |
| Cyllid newydd ar gyfer seilwaith | 760 | 1,785 | 2,145 |
| **Cyfanswm** | **1,345** | **2,510** | **3,090** |

Ffynhonnell: Trysorlys EM, ***Datganiad yr Hydref, 2011***, 29 Tachwedd 2011 (Tabl 2.1)

## Yr effaith bosibl ar Gymru

Fel y nodir yn nhabl 1 uchod, roedd Datganiad yr Hydref yn nodi **cyfanswm gwariant ychwanegol o tua £6.94 biliwn dros y tair blynedd rhwng 2012-13 a 2014-15**. Mae £2.25 biliwn o hynny'n gyllid refeniw, ac mae £4.69 biliwn yn gyfalaf. Bydd rhywfaint ohono'n arwain at symiau canlyniadol i Gymru.

Roedd datganiad i'r wasg gan Swyddfa Cymru mewn ymateb i Ddatganiad yr Hydref yn awgrymu y bydd yn esgor ar **£216 miliwn yn rhagor o gyllid i Gymru dros y tair blynedd**. Fodd bynnag, nid yw'n sôn am symiau canlyniadol mewn perthynas â refeniw. Gan ddibynnu ar i ba raddau y gellir cymharu'r rhaglenni y dyrennir y cyllid refeniw ychwanegol iddynt a'u hunion ffurf (hynny yw, p'un a ydynt wedi'u datganoli neu'n cael eu darparu ar lefel y DU) efallai y bydd symiau canlyniadol ychwanegol i Gymru.

Dywed Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, am Ddatganiad yr Hydref:

> Today's Autumn Statement will have a strong impact on Wales. The Welsh Government will receive an additional £216m capital and I would encourage them to use this additional funding to enhance growth opportunities.[6]

[6] Swyddfa Cymru, Datganiad i'r wasg, ***Welsh Secretary responds to Autumn Statement: UK measures will help boost Welsh economy***, 29 Tachwedd 2011 [fel ar 29 Tachwedd 2011]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gyllidebau a chyllid, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (**Eleanor.Roy@cymru.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- ***Rhagolygon economaidd a chyllidol,*** Tachwedd 2011 (Saesneg yn unig)
- ***Fformiwla Barnett a newidiadau yng nghyllid datganoli,*** Mehefin 2011
- ***Cyllideb y Canghellor ar gyfer 2011***, Mawrth 2011

Ceir rhestr lawn o'r **hysbysiadau hwylus** yma.

**Rhif ymholiad: 11/2753/Dr Eleanor Roy**
**Mae briffiau gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

**Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post at y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost at Research.Service@cymru.gov.uk**